PWYLLGOR PENODI

DYDD MAWRTH, 5 MEHEFIN 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Mackie, Robson, Wild a/ac Williams |

25 : YMDDIHEURIADAU (OS OES RHAI)

Nid oedd ymddiheuriadau i'r cyfarfod hwn.

26 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiad o fudd ar gyfer y cyfarfod hwn.

27 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

28 : COFNODION

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2018 fel cofnod cywir.

29 : EITHRO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ynglŷn â'r eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i aelodau'r cyhoedd pe byddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod.

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

30 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL - STRYDLUN

Cafodd y Pwyllgor Penodi ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strydlun ei ymgynnull eto i dderbyn ac i ystyried canfyddiadau'r Canolfannau Asesu a gynhaliwyd ar 4 a 24 Mai 2018. Nododd y Pwyllgor bod Ymgeiswyr 1, 3, 10 ac 11 wedi tynnu nôl o'r broses.

Cyflwynodd Mandy Pigny, yr Aseswr Arweiniol Allanol, ganfyddiadau'r ymarferion canolfannau asesu a rhoddwyd y sgoriau cyffredinol ar gyfer pob un o'r cymwyseddau ymddygiadol oedd eu hangen ar gyfer y rôl gan ymgeiswyr 2, 6, 9 ac 15.

Wrth wneud ei benderfyniad, gwnaeth y Pwyllgor ystyried cais gwreiddiol pob un ymgeisydd, sut wnaeth yr ymgeisydd sgorio yn erbyn y cymwyseddau oedd eu hangen ar gyfer y rôl, yr asesiad ysgrifenedig ar bob un o'r tasgau oedd yn mynd ar ôl cryfderau a sgiliau'r ymgeiswyr. Cytunodd y Pwyllgor ar yr ymgeiswyr fyddai'n symud ymlaen at gyfweliad ffurfiol.

Gwnaeth y Pwyllgor ystyried yr opsiynau pwnc a gosod cwestiynau ar gyfer y broses gyfweld.

PENDERFYNWYD –

1. gwahodd ymgeiswyr 9 ac 15 i gyfweliad.
2. yr ymgeiswyr yn cael gwybod testun y cyflwyniad ac y byddent yn cael uchafswm o 10 munud ar gyfer y cyflwyniadau hynny.
3. llunio'r cwestiynau terfynol ar gyfer y pwyllgor cyfweld.

31 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses creu rhestr hir.

32 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD MERCHER 20 MEHEFIN 2018 AM 09:30YB

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mercher 20 Mehefin 2018 am 9:30am.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.20 am